

Cofion a Chydymdeimlad

Wedi i'r rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled gael ei gyhoeddi, fe ddaeth y newydd trist am farwolaeth Mrs Margaret Jones (Llansannan). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Hafwen a Dilys a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam a nain driw a charedig. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drosoch mewn ffordd arbennig ac y byddwch, ynghanol eich tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth i chi.

Anfonwn ein cofion at y gweddill ohonoch ac yn arbennig felly y rhai ohonoch sydd heb fod yn dda eich hiechyd ar hyn o bryd. Fe'ch cyflwynwn i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drosoch a thros eich anwyliaid yr un modd.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Adnoddau

- **Os nad ydych yn defnyddio'r we, mae modd i chi wrando a gwyllo'r oedfa a ddarllidir ar y Sul ar DVD, neu gallwch wrando ar CD, neu ddarllen copi papur o'r gwasanaeth.** Rhowch wybod i Mair os byddwch yn dymuno un o'r cyfryngau yma a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwysu '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg.
- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael.** Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.
- **Ar gyfer plant, mae gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- **Adnoddau eraill:** ar wefan www.gair.cymru ac ar wefan www.holi-cymru.org.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 15 Tachwedd 2020

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Rydym bellach wedi dod allan o gyfnod clo byr ac yn wynebu'r wythnosau a'r misoedd nesaf dan ganllawiau newydd Llywodraeth Cymru. Beth gawn ni ei wneud, a beth sydd wedi'i wahardd y tro yma yw'r cwestiynau sy'n codi'n gyson mewn sgysiau. Ac er ein bod yn deall bod y cyfyngiadau mewn lle am resymau da, mae'n gallu bod yn ddryslyd ac yn feichus gwneud yn siŵr fod yr hyn yr oeddem wedi'i fwriadu yn cyd-fynd â'r rheolau presennol. Mae'r sefyllfa mor fregus oherwydd bod agwedd unigolyn at risg, neu esgeulustod hyd yn oed un person yn gallu cael effaith mor ddifrifol ar gymaint o bobl eraill. Does dim modd osgoi'r cwestiwn o gyfrifoldeb personol – sut ydw i'n ymateb i'r canllawiau y mae'r awdurdodau wedi eu cyhoeddi?

Tydi hyn ddim yn bwnc diethr i'r Beibl, oherwydd bod gair Duw yn cael ei ddisgrifio fel cyfarwyddyd, gorchmynion a deddfau. Ond wrth gwrs mae Cristnogaeth yn llawer mwy na dim ond dilyn rheolau'r Beibl, er bod ufudd-dod yn rhan ganolog o fod yn ddisgybl i Iesu Grist. Mae agwedd y Cristion wrth ufuddhau i'r Arglwydd yn allweddol hefyd. Yn 1 Ioan 5:3-4 gwelwn y geiriau hyn: 'Oherwydd dyma yw caru Duw: bod inni gadw ei orchmynion. Ac nid yw ei orchmynion ef yn feichus, am fod pawb sydd wedi eu geni o Dduw yn gorchfygu'r byd.'

Felly mae'r Cristion yn ufuddhau i Dduw oherwydd cariad. Ond sylwch fod Ioan yn mynd ymlaen i nodi nad yw gorchmynion Duw yn feichus. Sut hynny? Oherwydd bod rhywbeth sylfaenol wedi digwydd yng nghalon y Cristion sy'n ei alluogi i ymateb yn gadarnhaol i Air Duw, ac i fyw mewn ffordd hunan-aberthol a chariadus. Mae Ioan yn dweud eu bod wedi eu geni o Dduw ac wedi gorchfygu'r byd. Hynny yw bod yr Ysbryd Glân wedi rhoi bywyd ysbrydol newydd, dyheadau newydd a nerth o'r newydd i'r Cristion. Heb yr enedigaeth newydd hon, byddwn yn parhau yn fydol – yn gaeth i'n dymuniadau hunanol er gwaethaf y canlyniadau i'n hunain ac i eraill.

Rhyfeddod mawr y newyddion da yw bod Iesu wedi dod i'r byd i'n rhyddhau o'r gaethiwed hon, a bod ei gariad Ef yn arwain at gariad newydd ymhlith ei bobl. Wrth i ni ymgodymu â'r canllawiau diweddaraf, cofiwn yr hyn y mae Iesu wedi bod yn fodlon ei wneud er mwyn sicrhau diogelwch tragwyddol i'w bobl: 'Cariodd ein pechodau ni yn ei gorff ar y pren, er mwyn i ni, a'n pechodau wedi mynd, allu byw i wneud beth sy'n iawn.' (1 Pedr 2:24 Beibl.net)

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Sul yma – 15^{fed}

- **Ysgol Sul ar-lein**
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.
- **Oedfa FYW ar y we**
Cynhelir oedfa fyw ar y we am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)
- **Sgwrs ar ZOOM**
Yn dilyn yr oedfa, bydd cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno i gael sgwrs ar ZOOM. (Bydd y manylion cysylltu ar gael ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled.)

Llun – 16^{eg}

- **Cwrs Alffa Ieuenctid**
Bydd y Cwrs Alffa Ieuenctid yn cyfarfod ar ZOOM.

Mawrth – 17^{eg}

- **Cwrs Alffa Oedolion**
Bydd y Cwrs Alffa Oedolion yn cyfarfod ar ZOOM.

Mercher – 18^{fed}

- **Grwpiau Tai** (ar ZOOM)

Sul – 22^{ain}

- **Ysgol Sul ar-lein**
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.
- **Oedfa FYW ar y we**
Cynhelir oedfa fyw ar y we am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)

Llun – 23^{ain}

- **Cwrs Alffa Ieuenctid** (ar ZOOM)

Mawrth – 24^{ain}

- **Cwrs Alffa Oedolion** (ar ZOOM)

Mercher – 25^{ain}

- **Cyfarfod Gweddi**
Mae croeso i unrhyw un ohonoch i ymuno yn y Cyfarfod Gweddi fydd yn cael ei gynnal **am 7:30 yr hwyr**, eto ar ZOOM. Holwch Rhodri i gael y manylion cysylltu ac/neu os oes gennych unrhyw geisiadau gweddi.

Iau – 26^{ain}

- Cynhelir Cynhadledd Dydd Gweddi'r Byd (ar ZOOM) o 10.30 – 12.30. Os am ymuno yn y Gynhadledd, gofynnir i chi gysylltu â Margaret Morgan (margaretmaudmorgan@gmail.com). Bydd hynny'n eu galluogi i anfon y ddolen i chi ar ddechrau wythnos y Gynhadledd.

Sul – 29^{ain}

- **Gwasanaeth ZOOM (Llanefydd)** gyda'r Parch. John Pritchard am 10.00. Cysylltwch â Mair B. Williams (01745 540341/mairbeech1@gmail.com) i gael y manylion cysylltu.
- **Ysgol Sul ar-lein**
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.
- **Oedfa FYW ar y we**
Cynhelir oedfa fyw ar y we am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)
- **Sgwrs ar ZOOM** (gweler manylion Tachwedd 15^{fed})

Gwau, crosio, cwiltio...?

Fel y gwyddoch, mae Baby Basics Dyffryn Clwyd yn cefnogi teuluoedd bregus sydd ar fin cael babi neu sydd eisoes â phlant ifanc iawn trwy roi basgedi o eitemau angenrheidiol iddyn nhw. Os oes rhai ohonoch sy'n mwynhau gwau, crosio, neu gwiltio, maen nhw ar hyn o bryd yn brin o flancedi bach, tedis wedi eu gwau, a booties a menig, ac mi fydden nhw'n ddiolchgar iawn o'n cefnogaeth.

Maen nhw hefyd yn ddiolchgar o bethau ymolchi i blentyn ac i'r fam, neu wrth gwrs, mae rhodd ariannol bob amser yn cael ei werthfawrogi fel y gallant brynu'r hyn y maen nhw'n brin ohono.

Os bydd gennych unrhyw eitemau i'w cyfrannu, cysylltwch â Mair ac fe wnawn drefnu i'w casglu gennych, neu os byddwch yn dymuno cyfrannu'n ariannol, croeso i chi anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' gyda 'Baby Basics Dyffryn Clwyd' wedi ei ysgrifennu ar gefn y siec. Diolch am eich cefnogaeth.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

(Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF)

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (25^{ain}), os gwelwch yn dda.